Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad: Dydd Llun 14 Medi 2020

Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Health and Social Services Group

Annwyl Gyfeillion

**COVID-19: Gwisgo gorchuddion wyneb yn orfodol mewn siopau a mannau cyhoeddus dan do eraill yng Nghymru**

Mewn datganiad a gyhoeddwyd ddydd Gwener 11 Medi, cyhoeddodd Mark Drakeford, y Prif Weinidog, reolau COVID-19 newydd i ddod i effaith ddydd Llun 14 Medi 2020. Mae'r rheolau newydd yn cynnwys:

- Mae'n orfodol gwisgo gorchuddion wyneb mewn siopau a mannau cyhoeddus dan do
- Rhaid i gyfarfodydd dan do gael eu cyfyngu i chwe pherson neu lai o aelwyd estynedig

Rydym yn ysgrifennu i egluro'r sefyllfa o safbwynt gorchuddion wyneb gorfodol ym mhob lleoliad Gofal Sylfaenol, ledled Cymru, gan gynnwys gwasanaethau deintyddol, meddygol cyffredinol, optometreg a gwasanaethau fferyllol. Dyma'r prif bwyntiau ar gyfer contractwyr gofal sylfaenol:

1. Rhaid i unrhyw berson sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol wisgo gorchudd wyneb oni bai eu bod wedi'u heithrio (gweler pwynt 6 isod).
2. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ddefnyddio gorchudd wyneb oni bai bod person wedi'i eithrio.
3. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff clinigol ac anghlinigol gofal sylfaenol wisgo gorchudd wyneb.
4. Disgwylir i glinigwyr gofal sylfaenol barhau i ddefnyddio'r cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gyfer archwiliadau clinigol.
5. Disgwylir i glinigwyr gofal sylfaenol arfer barn wrth benderfynu ym mha sefyllfaoedd y gellir disgwyl yn rhesymol i gleifion dynnu eu gorchudd wyneb yn ystod archwiliadau clinigol.
6. Cardiau esemptio. Ni ddylid gofyn yn rheolaidd i'r rheini sydd â rheswm sy'n gysylltiedig ag oedran, iechyd neu anabledd dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o hyn, ac mae hyn yn cynnwys cardiau esemptio. Nid oes angen i unrhyw berson ofyn am gyngor gan weithiwr meddygol proffesiynol, neu ofyn am lythyr ganddo ynglŷn â'u rheswm dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb. Efallai y bydd rhai pobl yn teimlo'n fwy cyfforddus drwy ddangos rhywbeth sy'n dweud nad oes raid iddynt wisgo

gorchudd wyneb. Gallai hyn fod ar ffurf carden esemptio, bathodyn neu hyd yn oed arwydd wedi'i wneud â llaw ganddyn nhw.
Dewis personol yw hwn ac nid yw'n angenrheidiol yn ôl y gyfraith. Cofiwch a pharchwch amgylchiadau o'r fath, gan gofio, efallai na fydd y rhesymau am hyn yn weledol i eraill. Mae hyn yn cynnwys (ond nid yw wedi'i gyfyngu i):

- blant o dan 11 oed
- pobl na allant wisgo gorchudd wyneb, neu ei dynnu, oherwydd bod ganddynt salwch neu nam corfforol neu feddyliol, neu anabledd
- pobl sy'n mynd gyda rhywun sy'n dibynnu ar ddarllen gwefusau pan fydd angen iddynt gyfathrebu
- pobl sy'n dianc rhag bygythiad neu berygl ac nad oes ganddynt orchudd wyneb

I gael rhagor o wybodaeth a chanllawiau diweddar ynglŷn â gorchuddion wyneb ewch i wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/gorchuddion-wyneb-canllawiau-ir-cyhoedd

Yn gywir

**Andrew Evans**
Chief Pharmaceutical Officer/ Prif Swyddog Fferyllol
Welsh Government/Llywodraeth Cymru

**Colette Bridgman**
Chief Dental Officer/Prif Swyddog Deintyddol
Welsh Government/Llywodraeth Cymru

**Dr Mark Walker**
Senior Medical Officer/Uwch Swyddog Meddygol
Welsh Government/Llywodraeth Cymru

**David O'Sullivan**
Chief Optometric Adviser / Prif Optometrig Ymgynghorol
Welsh Government / Llywodraeth Cymru

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*